PWYLLGOR RHANBARTH Y DE-ORLLEWIN

ADRODDIAD I GYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU, 2003 - 2004

Cyflwyniad

1. Pwyllgor Rhanbarth y De-orllewin yw un o bedwar pwyllgor rhanbarth y Cynulliad a sefydlwyd o dan Adran 61 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 a Rheol Sefydlog 10.

2. Yn ôl Rheol Sefydlog 10.2

> "Bydd y pwyllgorau rhanbarth yn cynghori'r Cynulliad ynglŷn â materion sy'n effeithio ar eu rhanbarthau, effaith polisïau'r Cynulliad yn y rhanbarthau hynny a gwaith cyrff cyhoeddus yno." Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor gyfarfod yn ei ranbarth o leiaf ddwywaith y flwyddyn.

3. Mae 17 o aelodau:

Peter Black	Gorllewin De Cymru	Y Democratiaid Rhyddfrydol
Nicholas Bourne	Canolbarth a Gorllewin Cymru	Y Ceidwadwyr
Alun Cairns	Gorllewin De Cymru	Y Ceidwadwyr
Andrew Davies	Gorllewin Abertawe	Llafur
Glyn Davies	Canolbarth a Gorllewin Cymru	Y Ceidwadwyr
Janet Davies	Gorllewin De Cymru	Plaid Cymru
Tamsin Dunwoody Kneafsey	Preseli Sir Benfro	Llafur
Lisa Francis	Canolbarth a Gorllewin Cymru	Y Ceidwadwyr
Brian Gibbons	Aberafan	Llafur
Christine Gwyther	Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro	Llafur
Edwina Hart	Gwyr	Llafur
Helen Mary Jones	Canolbarth a Gorllewin Cymru	Plaid Cymru
Dai Lloyd	Gorllewin De Cymru	Plaid Cymru
Val Lloyd	Dwyrain Abertawe	Llafur
Catherine Thomas	Llanelli	Llafur
Gwenda Thomas	Castell-nedd	Llafur
Rhodri Glyn Thomas	Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr	Plaid Cymru

4. Etholwyd Peter Black yn gadeirydd i'r Pwyllgor ym mis Gorffennaf 2003.

Cyfarfodydd

5. Bu i'r Pwyllgor gyfarfod pum gwaith rhwng Gorffennaf 2003 a Mawrth 2004.

Dull Gweithio

6. Yn gyffredinol, mae'r Pwyllgor wedi canolbwyntio ar annog datblygiad trafodaethau cyhoeddus gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch polisïau ac ar gynnal adolygiadau gan bwyllgorau pwnc. Mae aelodau o'r cyhoedd wedi gallu codi cwestiynau a mynegi eu barn ynghylch y pynciau a drafodir. Mae cofnodion a phapurau'r cyfarfodydd wedi'u hanfon at Weinidog priodol y Cynulliad neu at Gadeirydd y Pwyllgor. Mae'r Cadeirydd hefyd wedi anfon cwestiynau at Weinidogion y Cynulliad ar gais er mwyn derbyn ymateb ysgrifenedig.

7. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi bod yn awyddus i gynnwys pobl ifanc yn ei drafodaethau. Ym mis Tachwedd gwnaeth disgyblion o Ysgol Gyfun Isaf Dwr y Felin yng Nghastell-nedd gyfraniad gwerthfawr i'r cyfarfod ar ddatblygu cynaliadwy.

Lleoliadau'r Cyfarfodydd

8. Mae'r Pwyllgor wedi parhau i gwrdd mewn canolfannau cymunedol ac mewn lleoliadau y mae modd i'r cyhoedd gael mynediad atynt. Mae'r Clerc yn ymgynghori ag Aelodau Cynulliad etholaethau ac â grwpiau mynediad i'r anabl lleol wrth ddewis lleoliadau. Mae'r Pwyllgor wedi cyfarfod yng Nghydweli (Gorffennaf), Tyddewi (Hydref), Port Talbot (Tachwedd), Caerfyrddin (Ionawr) a Phontardawe (Mawrth).

Y Materion Dan Sylw

9. Mae'r Pwyllgor wedi mynd i'r afael â gwahanol faterion sy'n ymwneud â phob agwedd ar gyfrifoldebau'r Cynulliad.

<u>Cyllido Ysgolion</u>

10. Trafododd y Pwyllgor gyllido ysgolion yn ei gyfarfod ar 4 Gorffennaf. Canolbwyntiodd y drafodaeth ar bapur ymgynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch Fformymau Ysgolion yng Nghymru ac ar agweddau eraill ar gyllido ysgolion. Rhoddodd y cyfarfod gyfle i sefydliadau lleol, gan gynnwys ysgolion lleol, fynegi eu barn i'r Pwyllgor. Hysbyswyd Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes ynghylch y drafodaeth.

<u>Yr agweddau cynllunio sy'n gysylltiedig â thai fforddiadwy a chymunedau cynaliadwy yng nghefn gwlad</u>

11. Ym mis Hydref, ystyriodd y Pwyllgor ymchwiliad Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad i'r agweddau cynllunio sy'n gysylltiedig â thai fforddiadwy a chymunedau cynaliadwy yng nghefn gwlad. Clywodd y Pwyllgor wahanol sylwadau amrywiol oddi wrth grwpiau lleol perthnasol, aelodau unigol o'r cyhoedd a chynrychiolwyr awdurdodau lleol. Trosglwyddwyd y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor i Gadeirydd Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad. .

Datblygu Cynaliadwy

12. Trafododd y Pwyllgor gynllun Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd fel rhan o'r broses ymgynghori ar gyfer asesu ei effeithiolrwydd. Clywodd y Pwyllgor sylwadau oddi wrth grwpiau amgylcheddol, twristiaeth a thrafnidiaeth lleol ac oddi wrth gynrychiolwyr awdurdodau lleol. Roedd yn arbennig o falch o glywed gan ddisgyblion Ysgol Gyfun Dwr y Felin, a oedd wedi sefydlu grŵp arbennig i fynd i'r afael â phroblemau amgylcheddol. Trafodwyd sylwadau'r sefydliadau â'r Aelodau a oedd yn bresennol ac fe'u trosglwyddwyd i Carwyn Jones, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad.

Tai ar gyfer Pobl Hyn, gan gynnwys y goblygiadau i Iechyd a Gofal Cymdeithasol

13. Trafododd y Pwyllgor adolygiad polisi Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio o dai ar gyfer pobl hyn, a'i oblygiadau i iechyd a gofal cymdeithasol yn ei gyfarfod ym mis Ionawr. Clywodd y Pwyllgor wahanol sylwadau oddi wrth grwpiau lleol perthnasol, y gwasanaeth tân a chynrychiolwyr awdurdodau lleol. Daeth David Melding, Cadeirydd Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, i'r cyfarfod yn sgîl perthnasedd adolygiad ei Bwyllgor ynghylch y berthynas rhwng iechyd a gofal cymdeithasol. Trosglwyddwyd y casgliadau i Janice Gregory, Cadeirydd Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, a chyflwynwyd papur i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Anghenion Addysgol Arbennig

14. Ystyriodd y Pwyllgor adolygiad Y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes o Anghenion Addysgol Arbennig yn ei gyfarfod ym mis Mawrth. Clywodd y Pwyllgor oddi wrth benaethiaid lleol, coleg hyfforddi athrawon, darparwyr gwasanaethau ac awdurdod lleol. Cynhwyswyd y prif faterion a godwyd mewn papur i'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes fel rhan o'r broses ymgynghori.

Casgliadau

15. Mae'r pwyllgorau rhanbarth yn rhoi cyfle i Aelodau'r Cynulliad gymryd rhan mewn trafodaethau ffurfiol â phobl eu rhanbarth a hysbysu'r Cynulliad ynghylch barn y cyhoedd. Yn ystod ei flwyddyn gyntaf mae'r Pwyllgor wedi ymateb i

argymhellion yr Adolygiad o Weithdrefn y Cynulliad wrth gyfrannu at ddatblygu polisïau neu adolygiadau pwyllgorau pwnc ac ymdrin â strategaethau trawsbynciol proffil uchel. Rydym wedi gofyn am fewnbwn oddi wrth sefydliadau ac unigolion lleol a hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi rhoi o'u hamser i gyfrannu at waith y Pwyllgor.

16. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae pwyslais wedi'i roi ar gynnwys y cyhoedd a sicrhau ei bod yn haws mynychu cyfarfodydd. Gobeithiaf y bydd cysylltiadau ag ysgolion lleol yn gallu cael eu cryfhau yn y dyfodol gan y gall myfyrwyr wneud cyfraniad gwerthfawr o ran helpu i ddatblygu polisïau'r Cynulliad.

Peter Black
Cadeirydd

ATODIAD

PWYLLGOR RHANBARTH Y DE-ORLLEWIN

AMSERLEN Y CYFARFODYDD

Mis Gorffennaf 2003 hyd fis Mawrth 2004

Dyddiad	Lleoliad	Agenda
4 Gorffennaf 2003	Canolfan Tywysoges Gwenllian, Cydweli	Cyllido Ysgolion
3 Hydref 2003	Neuadd y Ddinas Tyddewi, Tyddewi	Adolygiad Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad o'r agweddau cynllunio sy'n gysylltiedig â thai fforddiadwy a chymunedau cynaliadwy yng nghefn gwlad
28 Tach 2003	Theatr y Dywysoges Frenhinol, Port Talbot	Datblygu Cynaliadwy
30 Ion 2004	Canolfan Halliwell, Coleg y Drindod, Caerfyrddin	Adolygiad Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio o Dai ar gyfer Pobl Hyn
12 Maw 2004	Canolfan Celfyddydau Pontardawe, Pontardawe	Adolygiad Y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes o Anghenion Addysgol Arbennig